Datganiad Diogelu Data Cofnodi Digwyddiadau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd

Crynodeb

1. Mae Prifysgol Aberystwyth yn rheolwr data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a hefyd y ddeddfwriaeth diogelu data sydd i'w gweithredu yn 2018.

2. Y cynrychiolydd a enwebwyd gan y Brifysgol yw:
   Swyddfa'r Is-Ganghellor
   Prifysgol Aberystwyth
   Y Ganolfan Ddelweddu
   Campws Penglais
   Aberystwyth
   Ceredigion
   SY23 3BF

3. Rhaid i'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd brosesu gwybodaeth bersonol ynglŷn â digwyddiadau a damweiniau o drwch blewyn er mwyn gallu:
   - Cofnodi manylion pob digwyddiad a damwain o drwch blewyn;
   - Ymchwilio i achosion pob digwyddiad a damwain o drwch blewyn i'w rhwystro rhag digwydd eto;
   - Galluogi'r Brifysgol i fodloni gofynion statudol Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013.

4. Rhaid i bob cyflogwr adrodd ar ddigwyddiadau yn ôl gofynion statudol a chyfreithiol, yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013. O ganlyniad, y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data hwn yw fel ymrwymiad cyfreithiol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu gwella ei threfn rheoli iechyd a diogelwch yn barhaus, a bodloni ei chyfrifoldebau cyfreithiol o ran Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

5. Nid yw'r data a gesglir ar gyfer hyn yn sensitif, yn ôl diffiniad y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Manylion

6. Data personol cynrychiolwyr yw'r wybodaeth a gesglir drwy lenwi ffurflen cofnodi digwyddiad yn dilyn digwyddiad neu ddamwain o drwch blewyn. Mewn achosion lle cafodd unigolion eu heffeithio neu y gallent fod wedi eu heffeithio oherwydd y digwyddiad, bydd hyn yn cynnwys manylion fel enw, adran, cyfeiriad, rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost. Bydd ffurflenni cofnodi digwyddiadau hefyd yn cynnwys manylion yr anafiadau, a manylion cyswllt unrhyw dystion i'r digwyddiad. Defnyddir y data personol a geir yn y Ffurflenni Cofnodi Digwyddiadau ar gyfer:
   - Galluogi'r Brifysgol i adrodd ar ddamweiniau difrifol yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodol, yn unol â gofynion Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013;

- Ymchwilio i wraidd pob digwyddiad a damwain o drwch blewyn er mwyn eu rhwystro rhag digwydd eto a chadarnhau'r ffeithiau;
- Darparu ar gyfer y Brifysgol gofnod o'r holl ddigwyddiadau a damweiniau o drwch blewyn o ganlyniad i'w gweithgareddau.

7. Bydd yr Adran Gyllid yn cadw gwybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau sy'n arwain at anafiadau personol a/neu salwch galwedigaethol, all arwain at brosesau ymgyfreitha.

8. Bydd y Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau yn cael ei chadw am o leiaf tair mlynedd, neu tan ddiwedd y cyfnod statudol y gall unigolyn hawlio yn erbyn y Brifysgol. Er enghraifft, mae gan blant dair blynedd o ddyddiad eu pen-blwydd yn 18 oed i hawlio.

9. O dan rai amgylchiadau, bydd y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn datgelu peth o'r wybodaeth a ddarperir i drydydd partïon. Ymhlith y rhain fydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, os yw'r digwyddiad yn arwain at ddamweiniau difrifol penodol yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodol, fel y nodir yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013.

10. Yn achlysurol, gellir hefyd rannu gwybodaeth ag Yswirwyr a/neu gynrychiolwyr cyfreithiol y Brifysgol os ceir achosion o ymgyfreitha oherwydd anaf personol neu glefydau galwedigaethol.

<u>Gwybodaeth bellach</u>

11. Fel gwrthrych data, mae gennych ystod o hawliau mewn perthynas â'r data mae'r Brifysgol yn ei gadw amdanoch. Ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/policies/dp/data-subject-rights/

12. Ar gyfer ymholiadau pellach ynglŷn â'r uchod, cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Data a Hawlfraint, Dr Jonathan Davies, drwy infocompliance@aber.ac.uk.